Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Enw Jordan Morgan-Hughes

Cwmni/Corff Menter Iaith Bro Ogwr

Cwestiynau

1. A ydych yn cytuno â'n barn y bydd gwasanaeth i Blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i Blant?

Ydw. Nid oes yna wasanaeth tebyg ar gael ar hyn o bryd, ac mi fydd y cynlluniau yn gwneud gwell ddefnydd o S4C-2.

2. A ydych yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail masnachol?

Na. Dydw i ddim yn meddwl fydd gan unrhyw drydydd parti diddordeb mewn cynnig wasanaeth sydd tebyg i'r hyn mae S4C yn cynnig.

3. A allwch chi feddwl am ran-ddalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?

Na.

4. A oes gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch safbwyntiau am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?

Er fy mod i'n hollol gefnogol o beth mae S4C yn cynnig i blant o dan 16, rydw i'n teimlo'n gryf fod angen hefyd i S4C wella'r ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc oed 16-25. Mae Channel 4 yn rhagori yn ei ddarpariaeth ar gyfer yr ystod oedran yma gyda 'sianel' T4. Mae'n hen bryd i rywbeth tebyg cael ei gynnig i Gymry Cymraeg ifanc.

5. Yn eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i Blant a ddarparir gan S4C?

Mae angen rhaglenni newydd, Gwreiddiol. Syniadau newydd, gan pobl ifanc. Rhaglenni wedi eu creu yng Nghymru, gyda chyfleoedd i bobl ifanc cymryd rhan yn y broses o greu'r rhaglenni.

6. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried am y mater hwn?

Yn fy marn i, mae'n bwysicach i ddarparu gwasanaeth iaith Cymraeg i bobl ifanc, na ddarlledu cyfarfodydd y cynulliad. Mae manylion popeth sydd yn cael ar ddarlledu o'r cynulliad ar gael o ffynonellau eraill. Dydy rhaglenni Cymraeg i blant ddim.

A ydych wedi ystyried recordio'r hyn sydd yn digwydd yn y cynulliad, a'i ddarlledu dros nos?

7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried o ran yr Ymgynghoriad hwn ynghylch sianel deledu Gymraeg newydd i Blant?

Nac oes